# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD IAU, 27AIN MEHEFIN, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.***

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 19 Mehefin 2024)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**Gareth Tudor Jones**
**John Brynmor Hughes**
**Gruffydd Williams**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitem sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

**7. DELWEDD NEWYDD I'R AHNE** 9 - 11

I ystyried y mater ymhellach.

**8. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN** 12 - 14

I ddarparu gwybodaeth a diweddariad i aelodau ar brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn.

**9. PROSIECT "PERTHYN"** 15 - 16

I roi gwybodaeth i aelodau ar y Prosiect "Perthyn".

**10. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE** 17 - 19

I gyflwyno gwybodaeth i aelodau ar Gynllun Rheoli'r AHNE.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 22/11/2023

**Yn bresennol**:

**Aelodau:** Y Cynghorwyr **Gareth Williams**, **John Brynmor Hughes**, **Gareth Tudor Jones**, **Gruffydd Williams** ac **Angela Russell** (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd ag **Noel Davey** (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), **Jina Gwyrfai** (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), **Sianelen Plemming** (Cyngor Cymuned Pistyll), **T. Victor Jones** (Cadeirydd) (Cyngor Cymuned Llanbedrog) **Robert Parkinson** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), **Morgan Jones-Parry** (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), **Linda Ashton** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Sian Parri** (Cyngor Cymuned Tudweiliog), **Brett Garner** (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn) a **Dewi Evans** (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion: Bleddyn P. Jones** (Swyddog AHNE Llŷn), **Morus Llwyd Dafydd** (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), **Heledd Fflur Jones** (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) a **Rhodri Jones** (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2023/24.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol T. Victor Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2023/24.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan **Einir Wyn** (Cyngor Cymuned Llanengan), **Euros Jones** (FWAG Cymru), Cynghorydd **Dafydd Davies**, **Eirian Allport** (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), **Gillian Walker** (Cyfeillion Llŷn) a **Kevin Roberts** (Warden Cefn Gwlad – AHNE Llŷn)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan Morgan Jones-Parry a Sianelen Pleming ar gyfer Eitem 9 gan fod Canolfan Llithfaen yn cael ei drafod. Nid oeddent o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a ni wnaethant adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gareth Tudor Jones ar gyfer Eitem 8 gan ei fod yn un o gyfarwyddwyr 'O Ddrws i Ddrws', sydd wedi derbyn arian gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a ni wnaeth adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023, fel rhai cywir.

## 7. YR AWYR DYWYLL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod trafodaethau wedi codi yng nghyfarfod 29 Mawrth 2023 o'r Pwyllgor hwn ynglŷn ag ymgeisio am ddynodiad 'Awyr Dywyll' i'r ardal AHNE, yn dilyn llwyddiant Ynys Enlli i dderbyn y dynodiad o 'Noddfa Awyr Dywyll' yn ddiweddar. Nodwyd mai canlyniad y trafodaethau hynny oedd ystyried ymgeisio am ddynodiad i ardal Aberdaron o'r AHNE os oedd y gymuned yn cefnogi hynny.

Diweddarwyd bod swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Aberdaron yn ystod eu cyfarfod ym mis Gorffennaf. Cadarnhawyd bod y gymuned yn awyddus i ymgeisio am y dynodiad 'Awyr Dywyll' ac felly mae'r gwaith paratoi ar gyfer y cais wedi cychwyn. Pwysleisiwyd bydd y cais am ddynodiad Awyr Dywyll yn berthnasol i ffiniau ardal Cyngor Cymuned Aberdaron yn unig.

Cadarnhawyd bod swyddogion yn cydweithio gyda Prosiect NOS er mwyn casglu data i adeiladu cais am ddynodiad Awyr Dywyll. Amcangyfrifwyd byddai'r gwaith hwn yn cymryd rhwng 1 a 2 mlynedd i'w gwblhau cyn derbyn dynodiad. Manylwyd bod swyddogion hefyd wedi bod yn mesur tywyllwch yr awyr yn ddiweddar gan ddefnyddio 'Sky Quality Meter' ar nosweithiau clir di-leuad. Cadarnhawyd y bwriedir gwneud hyn mewn gwahanol rannau o ardal y dynodiad dwywaith y flwyddyn.

Eglurwyd bod swyddogion yn cydweithio gyda AHNEau eraill yn ogystal â'r Parc Cenedlaethol drwy gydol y broses. Manylwyd bod swyddogion wedi bod yn cydweithio gyda chwmni Ridge er mwyn adnabod ardaloedd o fewn ardal AHNE Llŷn ble mae llawer o lygredd golau er mwyn ceisio cynorthwyo datrysiadau i'r llygredd hwnnw gyda'r sefydliadau. Esboniwyd bod y cwmni wedi edrych ar oddeutu 20 sefydliad o fewn yr AHNE ble mae llygredd golau a nodwyd mai'r prif sefydliadau sydd wedi cael eu blaenoriaethau yw:

- Nant Gwrtheyrn
- Clwb Golff Nefyn
- Neuadd Sarn Mellteyrn
- Ysgol Crud y Werin, Aberdaron

Eglurwyd nad ydi'r lleoliadau sydd wedi cael eu cynnwys gan gwmni Ridge yn cynnwys anheddau preswyl, ail dai neu dai gwyliau oherwydd nid oes gan y Cyngor awdurdod i'w reoli. Er hyn, nodwyd bod swyddogion yn cael trafodaethau gyda'r adran gynllunio er mwyn ystyried gosod amodau ar dai newydd i geisio datrys y broblem o lygredd golau.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 8. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r Aelodau, a thynnwyd sylw'n fras i'r prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr aelodau bod £100,000 ar gael ar gyfer Cronfa'r Datblygiadau Cynaliadwy ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Cadarnhawyd mai'r prosiectau canlynol sydd wedi derbyn cefnogaeth y Gronfa hyd yma eleni:

- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Bws Fflecsi Llŷn
- Balchder a chelf Llŷn
- Storws Enlli
- Diogelu Enwau Llanengan
- Llyfrgell Pethau Llŷn
- Gŵyl R S Thomas
- Arddangosfa Melinau Gwlân Llŷn
- Arddangosfa Berwyn Jones
- Cae Chwarae Rhydyclafdy
- Menter Raber

Eglurwyd bod £4,833 yn weddill o'r Gronfa. Nodwyd bod modd derbyn ceisiadau am yr arian hwn, ond bod unrhyw brosiect sy'n derbyn yr arian yn ei ddefnyddio cyn diwedd mis Mawrth 2024. Nodwyd bydd adroddiadau cyffelyb yn y dyfodol yn cynnwys prosiectau sydd wedi derbyn cefnogaeth y Gronfa yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd flaenorol er mwyn cael darlun o'r mathau o brosiectau sy'n ymgeisio am ddyraniad o'r gyllideb.

Tynnwyd sylw at brosiectau 'Storws Enlli' a 'Bws Fflecsi' yn benodol oherwydd eu bod wedi derbyn £30,000 yr un o ddyraniad y Gronfa. Darparwyd diweddariad ar y prosiectau gan nodi eu bod wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda'r Storws wedi cael ei adfer i safon ardderchog a'r Bws Fflecsi wedi cludo mwy o deithwyr eleni.

Sicrhawyd bod cyllideb o £100,000 wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 ac anogwyd yr aelodau i hysbysu cymunedau Llŷn o'r cyfleon mae'r Gronfa yn ei ddarparu. Atgoffwyd yr aelodau bod gwybodaeth ychwanegol am y Gronfa ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr AHNE.

Nodwyd bod canllawiau mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn gyd fynd â'r themâu 'Adfer Natur' a 'Dad-garboneiddio'.

Atgoffwyd bod naw Aelod ar Banel y Gronfa ar hyn o bryd. Nodwyd bod yr Aelod dros Gyngor Cymuned Clynnog Fawr wedi datgan diddordeb i gamu i lawr o'r Panel. Etholwyd y Cynghorydd John Brynmor Hughes fel Aelod o'r Panel yn ei lle.

Yn dilyn y drafodaeth ar yr eitem yma, tynnwyd sylw at drafferthion sy'n codi o ddiffyg bysiau hwyrol sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn ardaloedd gwledig yr AHNE. Ystyriwyd os byddai modd ystyried y Bws Fflecsi fel rhan o ddatrysiad i'r sefyllfa ond cydnabuwyd byddai hyn yn anodd gan ei fod yn wasanaeth tymhorol gydag oriau cyfyngedig ar rai dyddiau'r wythnos. Cytunwyd bydd y Swyddog AHNE yn cysylltu gyda Rheolwr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn nodi bod yr Aelodau yn datgan pryder am y sefyllfa bresennol.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
2. **Etholwyd y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn aelod o Banel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, wedi i Aelod Cyngor Cymuned Clynnog gamu i lawr.**

## 9. PROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog AHNE Llŷn  er gwybodaeth i'r Aelodau a thynnwyd sylw'n fras i'r prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC) yn gynllun grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE. Cadarnhawyd bod y prosiectau yn yn cwmpasu tair blynedd (2022-25).

Esboniwyd bod yr adroddiad yn manylu ar ddiweddariadau 2022/23 o brosiectau cyfalaf TCLC Llŷn sef:

- Adnewyddu grisiau Porth Ysgo
- Tiroedd Comin Mynytho, Horeb a Rhos Botwnnog
- Coed Cynhenid
- Rhywogaethau ymledol estron
- Canolfan Llithfaen

Cadarnhawyd bod yr AHNE yn derbyn oddeutu £200,000 yn flynyddol gan y Llywodraeth o fewn y TCLC i'w wario ar y prosiectau hyn yn 2023/4. Soniwyd y bydd oddeutu £160,000 o'r arian hwn wedi cael ei wario ar waith cyfalaf  (£60,000 yng Nghanolfan Llithfaen, £50,000 ym Mhorth Ysgo, £30,000 i'r tiroedd comin a £20,000 ar goed cynhenid). Sicrhawyd bod gwariant y prosiectau hyn yn hyblyg i anghenion yr ardal ac bod swyddogion yn trafod y materion gyda'r Llywodraeth yn rheolaidd er mwyn darparu diweddariadau. Nodwyd y bydd diweddariadau'r dyfodol i'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth am wariant y prosiectau o fewn yr adroddiadau.

Trafodwyd bod problemau rhododendron ar dir comin Mynydd Tir y Cwmwd, Llanbedrog, ond eglurwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio gyda'r sefyllfa hon felly nid oes angen i'r AHNE weithredu yma.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 10. MATERION CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn  er gwybodaeth i'r Aelodau. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Soniwyd bod llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS wedi cyrraedd Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn ogystal â Chadeiryddion y Parciau a'r Cydbwyllgorau AHNE yn ddiweddar. Manylwyd bod y llythyr yn nodi bod y

Llywodraeth wedi datblygu pecyn hyfforddiant ar-lein ar gyfer y cyrff perthnasol er mwyn sicrhau bod gan arweinwyr ac aelodau'r sefydliadau y wybodaeth a'r sgiliau cywir.

Eglurwyd bod dwy sesiwn hyfforddiant perthnasol i aelodau Cydbwyllgor AHNE Llŷn, gan gynnwys:

- Cyflwyniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd

Cadarnhawyd nad yw mynychu'r sesiynau hyfforddiant hyn yn orfodol ond mae anogaeth gref i'r holl aelodau fynychu'r sesiynau. Eglurwyd bod y sesiynau yn 2 awr yr un ac yn cael eu cynnal ar 02 Chwefror ac 16 Chwefror 2024 rhwng 2-4yh. Nodwyd mai'r bwriad yw trefnu cyfarfod o'r Cydbwyllgor er mwyn cynnal yr hyfforddiant.

Eglurwyd bod y term 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol' yn deillio o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a'i fod wedi bod mewn defnydd ers hynny. Er hyn, cydnabuwyd bod trafodaethau ynglŷn â'r enw wedi cael eu cynnal dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd ei fod yn or-ddisgrifiadol, yn hir ac ystyrir nad ydi'r AHNEau o'r un statws a'r Parciau oherwydd nad yw'r enw yn cynnwys y gair 'cenedlaethol'.

Ymhelaethwyd bod adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn Lloger wedi ei gynnal dan arweiniad y newyddiadurwr Julian Glover ac un o'r argymhellion oedd i newid yr enw gweithredol o 'Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol' i 'Dirweddau Cenedlaethol'. Nodwyd bod nifer fawr o ardaloedd Lloegr o blaid y newid hwn a rhannwyd pecynnau gwybodaeth, brandio a logos newydd i gyd-fynd gydag hyn. Eglurwyd hefyd bod Cymdeithas Cenedlaethol dros AHNE hefyd yn gefnogol ac am newid ei enw i Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol.

Sicrhawyd bod trafodaeth ar y mater wedi bod yng Nghymru hefyd. Eglurwyd, yn gyffredinol, mai cefnogaeth i'r bwriad sydd i'w weld mewn AHNE eraill ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol. Pwysleisiwyd nad oes gorfodaeth i ddefnyddio'r teitl newydd, y brandio na'r logo sydd wedi ei ddatblygu. Cadarnhawyd bydd enw swyddogol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn parhau.

Rhannwyd nifer o bryderon gan Aelodau am newid yr enw a'r logo presennol i'r fersiynau newydd. Ystyrir bod y defnydd presennol yn eglur, addas i bwrpas ac yn gyfle i ddangos i'r iaith Gymraeg. Cydnabuwyd nad oes modd creu cymdeithas ar wahân i Gymru oherwydd dim ond 5 ardal sydd yng Nghymru a bod 37 yn Lloegr, ond nodwyd bydd swyddogion yn cysylltu gydag ardaloedd AHNE eraill er mwyn lleisio gofidion.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
2. **Cytunwyd i beidio mabwysiadu teitl a logo cenedlaethol newydd 'Tirweddau Cenedlaethol' gan barhau gyda 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol' a'r logo presennol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.30yh

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2024 |
| **TEITL** | Delwedd newydd i'r AHNE |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Ystyried y mater ymhellach. |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth bellach am y gwaith sydd wedi ei wneud yn ddiweddar o ran creu brand a delwedd newydd i'r dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r dynodiad hwn yn berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

1.2 Mae'r adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cydbwyllgor ar gais y Cadeirydd yn dilyn derbyn llythyr gan Mr John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol (copi o'r llythyr yn Atodiad A).

## 2.0 ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

2.1 Mae'r term "ardal o harddwch naturiol eithriadol" wedi ei gynnwys yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Pasiwyd y ddeddf yma gan y Llwyodraeth Lafur ar ôl y rhyfel er mwyn gwarchod yr ardaloedd arbennig yma ac yn achos y Parciau, hyrwyddo defnydd hamdden.

2.2 Dros y blynyddoedd mae cryn drafodaeth wedi bod am yr enw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn rhannol oherwydd ei fod yn deitl hir a disgrifiadol ac yn ail oherwydd nad yw yn cario yr un statws â Pharc Cenedlaethol rhywsut.

## 3.0 DELWEDD NEWYDD

3.1 Yn ddiweddar mae adolygiad o'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE wedi ei gynnal yn Lloger dan arweiniad y newyddiadurwr Julian Glover. Bu adolygiad tebyg yng Nghymru dan arweiniad yr Athro Peter Marsdon rhai blynyddoedd yn gynharach. Daeth Adolygiad Glover i'r casgliad fod achos cryf dros newid enw gweithredol yr AHNE i rhywbeth fyddai yn fwy bachog ac yn cynnwys y gair "cenedlaethol".

3.2 Mae'r Gymdeithas Genedlaethol dros AHNE, a sefydlwyd i gynorthwyo'r AHNE yn y DU trwy hyrwyddo ymarfer da, addysg ac hyfforddiant, wedi bod yn rhan o'r drafodaethaeth am ddyfodol yr Parciau a'r AHNE yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn cydgordio'r drafodaeth yn Lloger am newid enw gweithredol yr AHNE i "Dirweddau Cenedlaethol".

3.3 Roedd y mwyafrif o ardaloedd yn Lloegr o blaid newid yr enw a bu i'r Gymdeithas hefyd gefnogi'r syniad. Yn dilyn hyn mae'r Gymdeithas wedi arwain ar ddatblygu pecynnau gwybodaeth, brandio a logos newydd i gyd-fynd gyda hyn. Bellach mae'r Gymdeithas wedi newid ei henw i Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol. Hefyd mae y rhan fwyaf, os nad yr holl ardaloedd yn Lloger yn defnyddio'r term Tirwedd Cenedlaethol, weithiau gyda'r AHNE yn is-deitl. Hefyd mae'r logos newydd, sydd gyda elfen debyg er creu teimlad o berthyn, yn cael eu defnyddio yn eang. Dyma gyfeiriad gwefan y Gymdeithas er gwybodaeth: [www.national-landscapes.org.uk](http://www.national-landscapes.org.uk)

3.4 Mae trafodaeth ar y mater wedi bod yng Nghymru ymysg swyddogion. Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i'r bwriad ac mae'n ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol. Bellach mae rhai o'r AHNE yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r teitl Tirwedd Cenedlaethol a'r logos newydd.

3.5 Yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn mis Tachwedd 2023 roedd aelodau'r Cydbwyllgor o blaid parhau i ddefnyddio'r teitl Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r logo presennol o'r fran goesgoch yn hytrach na mabwysiadu teitl gweithredol Tirwedd Cenedlaethol a logo newydd (sydd hefyd yn dangos fran goesgoch).

3.6 Bydd Mr John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol, yn ymuno yn y cyfarfod i roi mwy o wybodaeth am y mater yma.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol
National Landscapes Association

Sian Parri (Cyngor Cymuned Tidweiliog)
Cadeirydd
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

Annwyl Sian,

Mae Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol yn elusen sy'n gweithio i sicrhau bod tirweddau mwyaf eithriadol y DU yn lleoedd hardd, ffyniannus, y mae pawb yn teimlo y gallant fod yn rhan ohonynt.  Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn aelod gwerthfawr o'r Gymdeithas ac rydym yn gweithio i gefnogi'r tîm a rhwydwaith y DU o Dirweddau Cenedlaethol i'w helpu i fod mor effeithiol â phosibl.

Roedd yn wych cael cynrychiolaeth Llŷn yn ein digwyddiad diweddar yn y Senedd, a fynychwyd gan Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio. Roedd yn gyfle a gafodd dderbyniad da i gyfleu pwysigrwydd y tirweddau hyn i'r genedl wrth ddathlu eu rheolaeth leol, eu llwyddiannau a'u hunaniaeth.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i roi trosolwg o'n gwaith a'n blaenoriaethau i chi. Rwy'n hapus naill ai i gwrdd â chi neu efallai ymuno ag un o gyfarfodydd eich Cydbwyllgor Cynghori?  Fel y gwyddoch, mae'r Gymdeithas wedi gweithio gyda'r holl dimau yng Nghymru a Lloegr ar y gwaith ailfrandio i Dirweddau Cenedlaethol a gafodd dderbyniad da, a deallaf fod Llŷn wedi bod yn gyndyn hyd yma i fabwysiadu'r brand newydd. Hoffwn gael y cyfle i archwilio'r sefyllfa hon gyda chi.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi yn fuan

John Watkins
**Prif-Weithredwr**
**Cymdeithas Tirweddau Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27 2024 |
| **TEITL** | Diweddariad ar brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC).

1.2 Mae prosiectau TCLC yn cwmpasu tair blynedd (2022-25) ac rydym bellach yn y flwyddyn olaf. Adroddwyd ddiwethaf ar y prosiectau hyn i'r Cydbwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn mis Tachwedd 2023.

## 2.0 THEMÂU Y PROSIECTAU CYFALAF

2.1 Gosodwyd themâu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf oedd yn rhan o gynllun TCLC sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio
- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

## 3.0 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU

3.1 **Adnewyddu grisiau Porth Ysgo -** mae'r grisiau yma ar lwybr cyhoeddus yn arwain i lawr i draeth bychan Porth Ysgo ar arfordir deheuol Llŷn. Fe'u gosodwyd yn wreiddiol tua 30 mlynedd yn ôl ond roedd eu cyflwr wedi dirywio yn ddifrifol. Roedd y prosiect yn cynnwys tynnu y grisiau pren gwreiddiol a gosod grisiau newydd gan ddefnyddio coed lleol wedi eu trin. Roedd adnewyddu'r grisiau yn sialens oherwydd natur yr ardal, clogwyni serth a mynediad gwael i'r safle. Penodwyd contractwyr lleol i wneud y gwaith, a gwblhawyd yn

ystod y Gaeaf i safon uchel ac mae mynediad hwylus i Borth Ysgo unwaith eto.

3.2 **Tiroedd Comin** – Mae'r prosiect hwn wedi ymestyn dros gyfnod o dair mlynedd. Y tiroedd comin o dan sylw yw Mynytho, Horeb, a Rhos Botwnnog. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys gwaith barbio a chlirio, gwella mynediad, trin rhywogaethau ymledol a gosod byrddau gwybodaeth ac ail gyflwyno pori.

3.3 **Coed cynhenid** – dyma brosiect dwy flynedd. Ym mlwyddyn 2023-24 y prif nod oedd adnabod safleoedd addas i blannu coed cynhenid o fewn yr AHNE drwy gynnal ymchwil ac ymgynghoriadau. Y flwyddyn ariannol hon bwriedir plannu coed yn ystod y gaeaf ar amryw o safleoedd yn yr AHNE.

3.4 **Rhywogaethau ymledol estron** - mae planhigion estron megis jac y neidiwr a changlwm tsapanaeaidd a rododendron yn broblem ar draws Llŷn, gyda sgil-effeithiau difrifol ar fioamrywiaeth. Yn 2023-24 roedd angen adnabod lleoliadau y planhigion, ar gyfer eu trin a pheilota gwahanol driniaethau. Yn y flwyddyn ariannol hon bydd mwy o weithredu uniongyrchol i ddifa y planhigion, gwaith sydd eisoes wedi dechrau.

3.5 **Y Ganolfan, Llithfaen** – Mae prosiect y Ganolfan yn un dros dair blynedd gyda gwaith cychwynnol wedi ei wneud yn 2022-23. Daeth yn amlwg yn fuan iawn fod angen gwaith mwy sylweddol ar y Ganolfan ac fod angen uwchraddio y cyfleusterau mewnol hefyd. Llwyddwyd i ddenu cyfraniad ariannol sylweddol at y prosiect o gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth y DU. Yn dilyn proses o dendro cystadleuol penodwyd y cwmni D. G. Jones a'i Fab Cyf. i adnewyddu'r Ganolfan a dechreuodd y gwaith yn Ionawr 2024. Mae cynydd da wedi bod ar brosiect y Ganolfan dros y misoedd diwethaf gyda'r gwaith allanol bron wedi ei orffen a llawer o'r gwaith mewnol bellach wedi ei wneud.

3.6 **Maes Parcio chwarel Llanbedrog** – prosiect ar gyfer 2024-25 dan y thema Twristiaeth Gynaliadwy. Mae'r safle hon yn boblogaidd gyda ymwelwyr a phobol leol yn mynd i'r traeth ond mae'r safle yn flêr a rhannau wedi tyfu yn wyllt. Y bwriad yw gwneud gwelliannau amgylcheddol a gwella mynediad.

3.7 **Prosiectau ar y Cyd.** Yn ogystal â phrosiectau penodol i AHNE Llŷn mae'r ardal wedi elwa o brosiectau sydd ar y cyd gyda Ardaloedd Dynodedig eraill. Rhoddir diweddariad ar y prosiectau hyn yn y cyfarfod:

- Terfynau Traddodiadol
- Yr Awyr Dywyll
- Pecyn Addysg

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2024 |
| **TEITL** | Prosiect “Perthyn” |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn ar y prosiect “Perthyn” yn cael ei gynnwys ar agenda’r Cydbwyllgor gais aelod Cyngor Cymuned Tudweiliog.

## 2.0 ARDAL O ARWYDDOCAD IEITHYDDOL

2.1 Ar Ragfyr y 11eg 2023 bu i dri Cyngor Cymuned yn Llŷn – Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog benderfynnu dynodi eu hardaloedd yn Ardal o Arwyddocad Ieithyddol. Eu bwriad oedd sefydlogi a chryfhau’r Gymraeg yn Llŷn. Pryder y Cynghorau oedd fod y Gymraeg yn dioddef oherwydd dylanawdau megis ail-gartefi, tai haf a thwristiaeth yn gyffredinol.

2.2 Yn dilyn hyn bu i rai Cynghorau Cymuned eraill hefyd ymuno yn y prosiect – Nefyn, Buan, Llanbedrog, Llannor a Llanystumdwy.

2.3 Mae papur safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cyfeirio at ddynodi ardaloedd lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn Ardaloedd o Arwyddocal Ieithyddol. Yn yr ardaloedd hynny roedd posibilrwydd i amrywio polisi cyhoeddus a gweithredu o blaid y Gymraeg.

2.4 Mae mwy o wybodaeth am y prosiect Perthyn wedi ei gynnwys mewn erthygl yn Llanw Llŷn fis Ionawr 2024 (gweler Atodiad B).

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Derbyn yr wybodaeth.

# Perthyn

'MAE'R GYMRAEG YN PERTHYN I NI I GYD'
PERTHYN
GWARCHOD Y GYMRAEG A'I HELPU I FFYNNU

## CROESO I ARDAL O ARWYDDOCÂD IEITHYDDOL LLŶN YN 2024

**Ar** Ddydd Llywelyn ein Llyw Olaf ar Ragfyr 11eg, 2023, cymerwyd cam pwysig iawn gan gynghorau cymuned Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog pan benderfynon nhw'n unfrydol i ddynodi'r tair ward yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol. Erbyn hyn mae Cyngor Tref Nefyn wedi ymuno â nhw hefyd ac mae mwy ar y ffordd. Drwy hyn maen nhw'n ategu eu bwriad i sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg yn Llŷn.

Mae yma bryderu nad ydi polisïau Cyngor Gwynedd wedi gwneud digon i warchod y cymunedau Cymraeg ers degawdau. Felly mae'r cynghorau cymuned yma wedi ymuno efo Cyfeillion Llŷn o dan ambarél y prosiect **Perthyn** i edrych ar bosibiliadau gosod amod iaith ar ddatblygiadau tai, creu cyfleoedd newydd i'r Gymraeg a sefydlu twristiaeth wahanol fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y dyfodol.

Dywedodd Siôn Williams, Cadeirydd Cyngor Botwnnog, ar ran y Cyngor: 'Er mwyn cael mwy o reolaeth leol dros benderfyniadau, byddwn angen canran resymol o arian y premiwm ail gartrefi a threthi'r diwydiant twristiaeth yn ôl, i gael ei ddefnyddio i dalu am y gwaith o sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg yn Llŷn.'

Mae'r prosiect Perthyn yn rhan o gynlluniau ehangach Llywodraeth Cymru i helpu'r Gymraeg yn y cymunedau lle mae nifer uchel o ail gartrefi. Mae gwaith ymchwil wedi cadarnau mai yma y mae'r Gymraeg yn dioddef waethaf o holl effeithiau negyddol y diwydiant twristiaeth, gyda'r effaith i'w weld amlycaf yn Abersoch.

'Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd,' meddai Jeremy Miles yn ei araith i nodi trigain mlynedd ers i Saunders Lewis draddodi ei ddarlith Tynged yr Iaith yn 1962. Rhoddodd Jeremy Miles her i bob unigolyn i weithredu i gryfhau'r Gymraeg. A chredai R S Thomas fod achub y Gymraeg yn hawdd: 'Yr oll sydd raid i ni ei wneud ydi ei siarad hi a siarad dim byd ond y hi,' meddai, ac fel un a oedd wedi dysgu'r iaith roedd yn ymwybodol o rwystrau a pheryglon dwyieithrwydd. Dyma hefyd oedd neges 'Dim Saesneg' Phill Wyman a ategwyd gan ddysgwyr Cymraeg Dwyfor ar y ffilm Beca sydd i'w gweld ar wefan newydd Cyfeillion Llŷn.

Mewn dwyieithrwydd y gwelai Saunders Lewis 'farwolaeth barchus ac esmwyth ac angladd ddi-alar i'r Gymraeg' a dyna'n union sy'n digwydd yma heddiw. Dywedodd hefyd fod parhad yr iaith yn Llŷn, sy'n ddi-dor ers y chweched ganrif, yn fater o fyw neu farw i Gymru. Mae Perthyn yn galw am greu gofodau Cymraeg newydd er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Fis cyn yr Eisteddfod ym Moduan cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli i ofyn am gydweithrediad pawb i estyn yr un croeso Cymraeg i dwristiaid Llŷn yn 2024 ag a wnaethpwyd ar gyfer yr Eisteddfod yn 2023. Cryfhau'r iaith Gymraeg yn Llŷn ydi'r nod er mwyn i ni fedru cyflwyno a rhannu'r trysor unigryw hwn, sydd gennym, hefo'r twristiaid a ddaw yma o bob rhan o Gymru a gweddill y byd. Yn y cyfarfod uchod cafwyd hanes Anna a Bryn Fôn yn rhedeg caffi Plas Carmel yn uniaith Gymraeg ac yn cael cefnogaeth gan bawb. Clywsom gan Myrddin ap Dafydd am reol Gymraeg yr Eisteddfod; gan Liz Saville am sut y mae dysgu'r Gymraeg yn agor y drws i fyd o deulu newydd a bod yn rhaid gwrando ar neges y dysgwyr; a chan Howard Huws o Gylch yr Iaith am effeithiau twristiaeth ar gymunedau dros y byd. Ers hynny mae'r bwriad o sefydlu Llŷn yn gyrchfan Gymraeg lle bydd y diwydiant twristiaeth yn ffynnu a'r iaith yn ffynnu yn ei sgil wedi derbyn cefnogaeth gan unigolion, grwpiau, busnesau, mudiadau, cynghorau a sefydliadau ar draws y sectorau, yn lleol ac yn genedlaethol.

Lansiwyd Perthyn mewn noson o gelf ac adloniant yn Llangwnnadl wedi ei threfnu gan Anna a Bryn Fôn a chyfeillion. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith ar wefan y Cyfeillion, sydd yn ofod uniaith Gymraeg digidol newydd wedi ei greu yn rhan o'r prosiect Perthyn. Croeso i bawb ymuno efo ni drwy'r wefan: www.cyfeillionllyn.org.

Cyflwynwyd gan Gyfeillion Llŷn ar ran Cynghorau Cymuned Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Nefyn, gyda chefnogaeth Cylch yr Iaith, Dyfodol yr Iaith a Chymdeithas yr Iaith.

**Sian Parri, Cyfeillion Llŷn, Tŷ Capel Penygraig, Llangwnnadl, Pwllheli**
**01758 770468**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2024 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli’r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl i’w chwarae yn y broses o baratoi ac adolygu’r Cynllun Rheoli.

1.2 Mae Cynllun Rheoli presennol AHNE Llŷn wedi dyddio ac angen ei adolygu. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr amserlen yn cynnyws y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

## 2.0 Y BROSES ADOLYGU

2.1 Wrth adolygu’r Cynllun bydd angen cymryd ystyriaeth o wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau a strategatehau perthnasol, amcanion cadwraeth, prosiectau lleol ayb.

2.2 Hefyd wrth adolygu’r Cynllun bydd angen dilyn canllawiau wedi eu cyhoeddi ar baratoi ac adolygu’r Cynlluniau Rheoli. Cyhoeddwyd canllawiau gan y Cyngor Cefn Gwlad Cymru nifer o flynyddoedd yn ôl.

2.3 Yn diweddar mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynau cwmni Land Use Consultants i adolygu a diweddaru’r Canllawiau hyn, disgwylir i’r fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi yn fuan.

## 3.0 CYFLWR YR AHNE A CHYD-DESTUN

3.1 Mae peth gwaith cefndirol wedi ei wneud ar gyfer adolygu’r

Cynllun Rheoli.

3.2 Comisiynwyd diweddariad o Adroddiad o Gyflwr yr AHNE. Mae’r adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a’r pwysau arnynt. Mae crynodeb wedi ei gyflwyno i’r Cydbwyllgor yn y gorffennol.

3.3 Hefyd beth amser yn ôl bu i’r Uned gomisiynnu Ymgynghorydd i ddiweddaru Cyd-destun y Cynllun. Roedd y gwaith yma yn golygu diweddaru gwybodaeth am gynlluniau, strategaethau, deddfau ayb sy’n berthnasol i Gynllun Rheoli’r AHNE.

## 4.0 CAMAU I’W CYMRYD

4.1 Yn fuan bydd yr Uned AHNE yn dechrau y gwaith o adolygu nodau, amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/neu newid mewn amgylchiadau. Y bwriad yw trefnu cyfarfod o’r Cydbwyllgor i drafod y materion hyn yn yr Hydref.

4.2 Yna byddwn yn symud ymlaen i ddiweddaru’r Cynllun Gweithredu sydd yn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir ei gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun. Hefyd bydd angen adolygu’r Asesiad Amgylcheddol a Rhywogaethau sydd ynghlwm â’r Cynllun.

4.3 Bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Bydd anegn cysylltu gyda mudiadau, sefydliadau ac uniogolion trwy whanaol ddulliau i gael eu barn a’u safbwyntiau ar y Cynllun. Bydd gan y Cydbwyllgor rôl i’w chwarae yn ystyried y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 5.0 MATERION LLOSG

5.1 Isod gwelir restr o Rinweddau Arbennig AHNE Llŷn fel eu nodir yn y Cynllun presennol:

- Tirlun ac Arfordir Hardd
- Tawelwch ac Amgylchedd lân
- Cyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd

- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant
- Pobol a chymunedau clos
- Cynnyrch a busnesau lleol
- Mynediad a hawliau tramwy

5.2 Fel cam cychwynnol yn y broses o adolygu'r Cynllun gofynnir i Aelodau'r Cydbwyllgor am eu barn o ran materion llosg sydd yn berthnasol i'r rhinweddau hyn ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ar hyn o bryd.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Derbyn yr wybodaeth.